

## DAMEG Y WLEDD BRIODAS.

**Emyn:** 271 ‘Hyfryd lais Efengyl hedd.’

**Darlleniad:** Mathew 22:1-14.

**Neges:**

### A. GWRTHOD Y GWAHODDIAD.

Mae brenin wedi paratoi gwledd briodas i’w fab, ac yn danfon ei weision i ddweud wrth y sawl sydd wedi derbyn gwahoddiad bod y wledd yn barod. Maent yn gwrthod dod! Mae'r gwahoddiad yn mynd eto. ‘*Dyweddch wrth y gwahoddedigion, “Dyma fi wedi paratoi fy ngwledd, ... dewch i'r wledd,”*’<sup>4</sup> Maent yn gwrthod eto ac yn cam-drin a lladd y gweision. Mae'r brenin yn eu cosbi!

Y brenin, yw Duw y Tad. Y mab, yw Iesu Grist. Y gweision, yw proffwydi'r Hen Destament a phregethwyr yr efengyl. **Iesu**, fe'i gwrthodwyd gan ei bobl ei hun, yr Iddewon.

Cafodd ei erlid a'i boenydio hyd ei farwolaeth ar groes. Heddiw, mae gweision Duw mewn llawer gwlaid, yn cael eu herlid, eu sarhau a'u hesgeuluso gan wrthwynebwyr. Yn ôl Luc 14:18+, mae'r gwahoddedigion yn gwneud esgusodion llipa yn hytrach na derbyn gwahoddiad y brenin. Heddiw, mae llawer yn gwrthod Efengyl Iesu gan

gyflwyno esgusodion llipa – rhy brysur, pethau gwell i wneud, ac ati. **Beth amdanom ni?** A wnawn esgeuluso gwahoddiad Duw i'w garu, trwy wrthod lesu Grist?

### B. YMESTYN Y GWAHODDIAD.

Meddai'r brenin, 'Y mae'r wledd briodas yn barod, ond nid oedd y gwahoddedigion yn deilwng. Ewch felly i bennau'r strydoedd, a gwahoddwch bwy bynnag a gewch yno i'r wledd briodas,' 9. Mae Luc 14 yn dweud wrthym ni, bod y gwahoddiad yn mynd 'i'r tlodion a'r anafusion, y deillion a'r cloffion.' Mae'r brenin am weld y wledd yn llawn!

Ystyriwch:

- A yw'n bosib i Dduw drefnu gwledd i'w Fab, a bod neb yn dod?
- A yw'n bosib i drefn a bwriad Duw i fethu?
- A yw'n bosib bod marwolaeth Iesu yn aneffeithiol ac yn ofer ar gyfer iachawdwriaeth?
- A fydd Satan yn fuddugol? Yr ateb bod tro yw 'Na'!

Bydd rhywun yn codi'r cwestiwn, "Onid yw Duw yn colli anrhydedd os ydy'r 'doeth a'r cryf' yn gwrthod dod, ac ond 'y tlawd a'r gwan' sy'n dod? Na! Yng ngeiriau Paul, 'Ond pethau ffôl y byd a ddewisodd Duw, ... a phethau gwan y byd, ... y distadl a'r dirmygedig a ddewisodd Duw,'

1 Corinth.1:7. Mae Duw yn gwybod pwy wna dderbyn Ei wahoddiad, ac mi fydd yn cael ei ogoneddu a'r lesu yn cael ei anrhydeddu. Yn wir, mi fydd y wledd yn llawn.

### C. GWISG DDIGONOL.

*"Aeth y brenin i mewn i gael golwg ar y gwesteion, a gwelodd yno ddyn heb wisg briodas amdano,"* 11. **Beth ddigwyddodd i'r dyn heb wisg briodas?** “Rhwymwch ei ddwylo a bwriwch ef i'r tywyllwch eithaf; bydd yno wylo a rhincian dannedd,” 13. Dyma ddarlun erchyll o dynged y rhai sy'n gwrthod derbyn gwahoddiad lesu (Ei efengyl) sy'n gwrthod y wisg a baratowyd iddynt. Cânt eu cau allan o bresenoldeb y Brenin am byth a phofi barn dragwyddol! **Beth yw'r wisg sydd rhaid ei gwisgo?** **Cyflawnder lesu Grist yw'r wisg sy'n gorchuddio pechod y credadun gerbron Duw sanctaidd.** 331' **O diolch am Gyfryngwr, Gwaredrwr cryf i'r gwan;** O am gael ei adnabod, fy Mhriod i a'm rhan, fy ngewisgo â'i gyflawnder yn hardd gerbron y Tad, a derbyn o'i gyflawnder wrth deithio'r anial wlad.' Medd lesu i orffen, "Y mae llawer, yn wir, wedi eu gwahodd, ond ychydig wedi eu hethol." Gwahoddwyd yr Iddewon yn gyntaf, ond gwrthod a wnaethant. Mae llawer heddiw wedi cael cyfle i glywed Gair Duw, ond gwrthod yr Efengyl a wnânt. Diolch am y rhai sydd yn derbyn gwahoddiad y Tad ac

wedi eu gwisgo â chyflawnder Crist. Gwnânt dderbyn gwir groeso a phrofi pob cyflawnder, yn y nef rhyw ddydd! [271 '*Hyfryd lais efengyl hedd, sydd yn gwahodd pawb i'r wledd; Mae gwahoddiad llawn at Grist, oes i'r tlawd newynog trist.*']

### Gweddi:

O Dduw Dad, diolch mai Ti yw'r Brenin mawr, sydd â phob awdurdod a gallu. Mewn cyfnod llawn gofid oherwydd y pandemig, a ninnau'n cydnabod na wyddom bryd y daw pethau'n well unwaith yn rhagor, cawn gysur o wybod mai Ti yw'r Duw tragwyddol, sy'n rheoli daear a nef. Cofiw am eiriau C.H Spurgeon, "*Pam na allwch olrhain Ei law, trystiwrch yn Ei galon.*" Mae'n ymddangos nad wyt yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd nac ar waith yn y dyddiau pryderus yma. Ond 'gwyddom dy galon', dy fod yn dymuno daioni i bawb sydd yn dy garu di. Ydy, mae'n anodd ar hyn o bryd, ond mae gyda Thi rhywbeth gwell ar gyfer dy blant.

Rwyt wedi trefnu gwledd briodas, rhwng dy Fab a'th Eglwys. Gwledd ddigonol a bendithiol ym mhresenoldeb lesu, i'th blant. A'r ffordd i ni i'w brofi yw trwy dderbyn yr Efengyl a chredu yn lesu. Diolch am dy eiriau o gysur i ni heddiw eto. Yn enw lesu Mawr, Amen.

## **THE PARABLE OF THE WEDDING FEAST.**

**Hymn:** 949 '*In heavenly love abiding.'*

**Reading:** Matthew 22:1-14.

**Message:**

### **A. REJECTING AN INVITATION.**

A king has prepared a wedding feast for his son and sends out his servants to tell those who have been invited that the feast is ready. They refuse to come! The king sends out his servants again. "*Tell those who have been invited that I have prepared my dinner: ... everything is ready. Come to the wedding feast,*" 4. They reject the invitation again, but this time they beat up the servants and kill them. The king brings judgement upon the murderers.

The king in the parable is God the Father. The son is Jesus Christ. The servants are the prophets of old and preachers of the gospel. Those invited are rejecting God! Jesus, while on earth, was rejected by many of his own people, the Jews. He was persecuted and tormented and put to death on a cross. Today, the servants of God in many countries, are rejected, persecuted and experience much suffering. According to Luke's gospel (14:8+) those that

received an invitation make excuses for not attending the feast. One wants to view a field, another wants to inspect some cattle, while a third refuses to come because he has just married. The invitation had been sent in good time, so they had time to reschedule their activities, yet they refused to attend the wedding feast. Each one made weak excuses for rejecting the king! Today, many people make weak excuses for rejecting the gospel of Jesus – they are too busy or have better things to do. What about us? Do we make weak excuses too, and reject God's love?

### **B. EXTENDING THE INVITATION.**

The king declared, "*Go therefore to the main roads and invite to the wedding feast as many as you find,*" 9. Luke tells us that '*the poor and crippled, the blind and lame*' were invited. The king wants the feast to be full. Consider:

1. Is it possible for God to arrange a feast and for no one to attend?
2. Is it possible for God's plans and will to fail?
3. Is it possible that Jesus' death is ineffective and that his death and resurrection does not bring salvation?
4. Will Satan be victorious, and his purpose succeed?

**NO!** God will be glorified, and Jesus will be honoured. He knows his children and His feast will be full. Remember, '*God chose what is foolish, ... what is weak, ... God chose what is low and despised,*' for himself. 1 Cor.1-7.

### C. A SPECIAL GARMENT.

"*But when the king came in to look at the guests, he saw there a man who had no wedding garment,*" 11. **What happened to this man?** '*Bind him hand and foot and cast him into the outer darkness,*' 13. Here is a terrible picture of the fate of all who reject Jesus' invitation (the gospel message) and who neglect the garment that is offered to them. They are thrown out of the King's presence for ever and face eternal punishment. **What is the garment that is required by God?** Jesus' righteousness. A garment that covers the sins of a believer before a Holy God. [*Jesus, thy blood and righteousness, my beauty are, my glorious dress.*] Jesus ends by saying, "*For many are called, but few are chosen,*" 14. The Jews were the first to be invited, but many rejected Jesus. Today, many people have heard God's words, but have rejected Him. Thankfully, there are those who have received God's invitation and have been clothed by Jesus' righteousness, and will be present at God's wedding feast!

### Prayer:

Heavenly Father, we give thanks that you are a mighty God, who holds all authority and power. At a difficult time because of the consequences of the pandemic, at a time when there appears to be no end to this virus, we have comfort in knowing that you are the eternal God who knows and orders all things. We remember the words of C.H Spurgeon, "*When you cannot trace His hand, trust His heart.*" There are times when we think that you are not aware of this pandemic and that you are not at work during these difficult days. But you are, and we need to 'trust your heart.' A heart that declares that you will never leave or forsake your people, a heart that will bring good to all who love you.

These are difficult times, but we give thanks that you have arranged a great wedding feast between your Son Jesus and the Church. A feast to be enjoyed by all your children, all who have trusted in Jesus, in heaven one day. Hear our prayer, in Jesus name. Amen.